SIR Y FFLINT RHEOLI CHWYN

Mae'r arolwg mwyaf ar draws y DU ar ddefnyddio plaladdwyr mewn trefi a dinasoedd yn nodi Glyffosad fel y prif gemegyn a ddefnyddir yn ein hamgylcheddau trefol. Mae'n ffurfio o leiaf 90% o'r plaladdwyr a ddefnyddir mewn mannau cyhoeddus. (Plaladdwr yw'r term a ddefnyddir ar gyfer ar gyfer unrhyw chwynladdwr, plaladdwr neu ffyngladdwr).



EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- Bydd Glyffosad yn teithio trwy'r planhigyn cyfan a lladd unrhyw blanhigyn y bydd yn dod i gyswllt ag ef. Fe'i gelwir yn chwynladdwr annetholus, systemig.
- Mewn amgylcheddau dyfrol, mae Glyffosad yn mynd trwy newidiadau cemegol sy'n caniatáu iddo barhau am gyfnod hwy ac aros yn weithredol.
- Gall Glyffosad gael effaith anuniongyrchol ar ein hamgylchedd naturiol trwy amharu ar gadwyni bwyd a lleihau ffynonellau bwyd a lloches.

BETH YDYM NI'N EI WNEUD

- • Rydym wedi dod â'n prosesau rheoli chwyn yn fewnol er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran ein dull.
- • Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio system Foamstream heb gemegion, dyfeisiau mecanyddol, chwistrellau heb Glyffosad a dulliau sy'n seiliedig ar wres i reoli chwyn ar draws y sir.
- • Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal 'Diwrnod Arddangos' pan wahoddwyd cyflenwyr i arddangos amrywiaeth o ddewisiadau amgen heb gemegion er mwyn rheoli chwyn.
- • Mae ymrwymiad Sir y Fflint i leihau faint o chwynladdwyr cemegol a ddefnyddir wedi ein helpu i ennill statws Caru Gwenyn.

PAM SYMUD ODDI WRTH GLYFFOSAD?

- Mae'r Asiantaeth Ryngwladol ar Ymchwil i Ganser (IARC) wedi datgan bod Glyffosad "yn garsinogenig i fodau dynol, mae'n debyg."
- Rydym mewn perygl o ddod i gyswllt ag ef yn unrhyw le lle defnyddir plaladdwyr.
- Mae plant mewn mwy o berygl o niwed.
- Mae iechyd a lles ein preswylwyr yn flaenoriaeth, a dyna pam mae Cyngor Sir y Fflint ymhlith y 45% o Gynghorau'r DU sy'n gweithredu i roi'r gorau i ddefnyddio plaladdwyr, neu leihau faint a ddefnyddir.
- Mae gan Ffrainc, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, yr Almaen a llawer o wledydd eraill amrywiaeth o gyfyngiadau ar ddefnyddio Glyffosad, gyda rhai yn gwahardd ei ddefnyddio adref, ac eraill â rheolyddion llym mewn mannau cyhoeddus.
- Rydym yn lleihau ein defnydd o Glyffosad er mwyn cefnogi mannau gwyrdd mwy iach i'n cymunedau.



EIN CAMAU NESAF

- Monitro effeithiolrwydd ein dulliau amgen o reoli chwyn.
- Cynyddu ein defnydd o ddulliau amgen ar draws y Sir.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cynefinoedd naturiol a pheillwyr.
- Annog pobl eraill i gefnogi ein prosiectau parhaus a phrosiectau sydd i ddod.

DULLIAU AMGEN AR GYFER RHEOLI CHWYN HEB GLYFFOSAD:

TROSOLWG CYMHAROL

Math o driniaeth	Enw'r Driniaeth	Manteision	Anfanteision
Seiliedig ar wres	 FOAMSTREAM	• Dim plaladdwyr a chyfeillgar i'r amgylchedd. • Addas ar gyfer nifer o arwynebau ac amgylcheddau. • Cyfleuster amlbwrpas. Defnyddir ar gyfer glanhau strydoedd ac isadeiledd. • Mae'n gweithio ar amrywiaeth o fathau o lystyfiant.	• Llai effeithiol ar chwyn â gwreiddiau dwfn neu luosflwydd. • Mae angen mynediad at gyflenwad dŵr a cherbyd i gludo. • Mae angen triniaeth reolaidd neu fwy nag un driniaeth mewn achosion penodol.
Seiliedig ar wres	 RIPAGREEN	• Mae'n gweithio mewn tywydd amrywiol. • Addas ar gyfer mannau cyhoeddus (ysgolion, parciau, ardaloedd trefol). • Gellir ei ddefnyddio ar nifer o arwynebau a mathau o diroedd.	• Mae angen nifer o driniaethau. • Posibilrwydd o risg o dân. • Effeithiolrwydd cyfyngedig ar chwyn sefydledig neu sydd â gwreiddiau dwfn. • Mae'n defnyddio llawer o nwy.
Mecanyddol	 WEEDO II	• Effeithiol ar arwynebau caled (mwsogl, chwyn, palmant bloc, tarmac). • Gellir addasu uchder/ongl y brwsh a sgubo i gyfeiriad penodol er mwyn clirio'n hwylus. • Maint cyfleus a hawdd ei drin.	• Llai effeithiol ar chwyn â gwreiddiau dwfn neu styfnig. • Gallai niweidio arwynebau os na chaiff ei osod yn gywir • Dim ond ardal fach all ei chwmpasu.
Cemegol (dim Glyffosad)	 Chwistrellau heb glyffosad	• Cost-effeithiol a hygyrch ar y cyfan. • Arwynebau caled mwy effeithiol ar y cyfan.	• Dim ond yn lladd rhannau sydd uwchben y ddaear. • Mae'n bosibl y bydd angen ei ddefnyddio'n fwy aml o'i gymharu â chwynladdwyr synthetig.